



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Dirmyg Llys

Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

Y crynodeb hwn

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'r materion allweddol rydym yn eu trafod yn ein papur ymgynghori Dirmyg Llys. Mae'n egluro beth yw pwrpas y prosiect a'r materion rydym yn rhoi sylw iddynt.

Yn y papur ymgynghori, rydym yn nodi nifer o gwestiynau ymgynghori rydym yn gofyn am ymatebion iddynt. Rydym yn cyfeirio at y cwestiynau ymgynghori hyn drwy gydol y crynodeb hwn. Mae rhai cwestiynau'n nodi cynigion dros dro ar gyfer diwygio'r gyfraith ac yn gofyn a ydych chi'n cytuno ai peidio. Mae eraill yn gwestiynau agored lle byddwn yn gofyn am eich barn. Dim ond ar ôl i ni dderbyn ac ystyried yr holl ymatebion i'r papur ymgynghori y byddwn yn dod i'n casgliadau terfynol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio.

Ein nod yw sicrhau bod unrhyw un yn gallu darllen y crynodeb hwn ac ymgysylltu â'r materion allweddol rydym yn rhoi sylw iddynt. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau o'r cyhoedd sydd â llai o ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r materion mwy manwl yn y papur ymgynghori.

Os oes gan unigolion neu sefydliadau ddiddordeb neu arbenigedd penodol mewn unrhyw un neu bob un o'r meysydd rydym yn eu harchwilio, yna byddem yn eu hannog i ddarllen y papur ymgynghori. Mae'n cynnwys trafodaeth fanylach ar y materion.



Ymateb i'n hymgyngghoriad

Pwy ydym ni 	Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.
Am beth mae'n sôn? 	Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r gyfraith dirmyg llys ac yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar wella ei degwch, ei effeithiolrwydd, ei gysondeb a'i gydlynïad.
Pam rydym yn ymgynghori? 	Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen diwygio'r gyfraith ac, os felly, sut. Mae ymgynghori yn elfen hollbwysig o'n gwaith. Rydym am i unrhyw argymhellion a wnawn yn y pen draw gael sylfaen dystiolaeth mor gryf â phosibl.
Gan bwy rydym yn dymuno clywed? 	Hoffem glywed gan gynifer o randdeiliaid â phosibl. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n gweithio mewn unrhyw faes o'r gyfraith lle mae dirmyg yn codi (boed yn gyfraith droseddol, sifil, teulu neu unrhyw faes cyfreithiol arall), barnwyr, aelodau tribiwnlysoedd, y cyfryngau, gorfodi'r gyfraith, staff carchardai, academyddion ac ymchwilwyr, defnyddwyr llys, pobl sydd â phrofiad o ddirmyg llys, a sefydliadau sy'n rhoi cymorth i'r rheini sy'n destun achos dirmyg neu a allai fod yn destun achos o'r fath.
Ble allaf ddarllen y papur ymgynghori? 	Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan: https://lawcom.gov.uk/project/contempt-of-court-2/

Beth yw'r dyddiad cau? 	Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 8 Tachwedd 2024.
Sut i ymateb 	Byddem yn gwerthfawrogi ymatebion i'r papur ymgynghori gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/law-commission/contempt-of-court Fel arall, gallwch ymateb: drwy anfon e-bost i: contempt-of-court@lawcommission.gov.uk drwy'r post i: Contempt of Court Team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG. (Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd os oes modd i chi wneud hynny.) Chi sydd i benderfynu pa gwestiynau ymgynghori i'w hateb – does dim angen ateb pob cwestiwn.
Beth fydd yn digwydd nesaf? 	Ar ôl dadansoddi pob ymateb, byddwn yn gwneud argymhellion dros ddiwygio, a byddwn yn cyhoeddi'r rheini mewn adroddiad. Y Llywodraeth fydd yn penderfynu a fydd yn gweithredu'r argymhellion. I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd a sicrhau bod ymatebion ymgynghoreion yn aros yn anhysbys, ewch i'r papur ymgynghoriad.

Cyflwyniad

Mae “dirmyg llys” yn cyfeirio at amrywiaeth eang o ymddygiad sy’n rhwystro neu’n ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder. Gall fod yn rhywbeth sy’n digwydd mewn llys: ymosod ar staff y llys neu dystion, er enghraifft, neu wrthod ateb cwestiynau llys os caiff rhywun ei alw fel tyst. Gellir hefyd cyflawni dirmyg yn rhywle arall, er enghraifft, drwy gyhoeddi deunydd sy’n torri cyfyngiad ar adrodd neu fethu â chydymffurfio â gorchymyn llys.

Mae’r gyfraith dirmyg yn anhrefnus ac, ar adegau, yn anghyson. Mae wedi datblygu dros ganrifoedd, ond mae wedi gwneud hynny’n dameidiog, ac erbyn hyn mae’n gyfuniad ansystematig o statud a chyfraith gyffredin. Mae gwahaniaethau hanesyddol yn parhau, fel y gwahaniaeth rhwng dirmyg sifil a throseddol, ond heb fawr o ddefnydd. Yn wir, pa un a yw’n cael ei ystyried yn ddirmyg troseddol neu’n ddirmyg sifil, nid yw dirmyg yn drosedd o gwbl ond, yn hytrach, mae’n drefn gwbl ar wahân ar gyfer diogelu gweinyddiaeth cyfiawnder. Y cosbau am ddirmyg yw carchariad neu ddirwy fel arfer. Ochr yn ochr â dirmyg llys ceir nifer o droseddau sy’n gorgyffwrdd sy’n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder (fel y trosedd o wyrddroi cwrs cyfiawnder).

Serch hynny, mae’r problemau mwy sylfaenol gyda dirmyg yn ymarferol. Nid oes gan lawer o lysoedd a thribiwnlysoedd bwerau ystyrlon i ddelio â dirmyg pan fydd yn codi. Hyd yn oed pan fydd gan lysoedd bwerau o’r fath, mae’r sancsiynau sydd ar gael iddynt – fel arfau i orfodi neu i gosbi – yn rhai llym. Mae’r gweithdrefnau ar gyfer dirmyg yn amrywio rhwng gwahanol lysoedd, a gall y gyfraith sy’n rheoli apeliadau fod yn aneglur ac yn gymhleth.

Mae pryderon cynyddol hefyd am effaith y cyfryngau cymdeithasol a datblygiadau technolegol eraill ar weinyddu cyfiawnder.

Mae’r holl broblemau hyn yn golygu ei bod yn anodd i leygwyr ac ymarferwyr cyfreithiol ganfod a deall y gyfraith berthnasol, ac i’r llysoedd adnabod ac ymateb yn briodol i ymyriant wrth weinyddu cyfiawnder.


Byddai set gliriach a mwy cydlynol o gyfreithiau a rheolau sy’n rheoli dirmyg – mynd i’r afael ag atebolrwydd am ddirmyg, pwerau llysoedd, gweithdrefnau a gosod sancsiynau – yn helpu i sicrhau bod y maes sylweddol iawn hwn o gyfraith yn gweithredu mewn ffordd egwyddorol, ddealladwy ac effeithiol.

Yn 2012, roeddem wedi adolygu rhai agweddau ar ddirmyg llys ac wedi cyhoeddi adroddiadau ar dri mater penodol: dwyn gwarth ar y llys; camymddwyn gan reithwyr a chyhoeddiadau ar y rhyngwrdd; ac adroddiadau gan y llysoedd. Yn y prosiect presennol hwn, rydym yn cynnal adolygiad cyfannol o’r gyfraith dirmyg llys. Yn dilyn trafodaethau helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid (gan gynnwys y cyfryngau, y farnwriaeth, academyddion, cyfreithwyr, rheoleiddwyr a llawer o randdeiliaid eraill), rydym wedi gwneud cynigion dros dro sy’n ymwneud â’r dirwedd gyfan o gyfraith dirmyg. Rydym yn gofyn am farn y cyhoedd ar y cynigion hyn. Ein hamcan wrth wneud y cynigion hyn yw cynhyrchu cyfraith o ddirmyg sy’n haws ei deall, yn decach, ac sy’n gwarchod gweinyddiaeth cyfiawnder yn well.

Rhyddid mynegiant a'r hawl i dreial teg

Wrth wneud cynigion dros dro ar gyfer diwygio, rydym yn cydnabod bod cyfreithiau dirmyg, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â dirmyg a gyflawnir drwy gyhoeddi, yn effeithio ar newyddiadurwyr proffesiynol a dinesydd-newyddiadurwyr. Mae gallu'r wasg i adrodd ar achos llys – i sicrhau bod cyfiawnder, cyn belled ag y bo modd, yn agored – yn rhan hanfodol o reolaeth y gyfraith. Mae'n rhaid i'r cyfyngiadau y mae cyfreithiau dirmyg yn eu gosod ar ryddid mynegiant, er mwyn cydymffurfio ag erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR"), fod yn gymesur a dilyn nod cyfreithlon.

Y nod cyfreithlon hwnnw – y rheswm dros gyfyngu ar ryddid mynegiant drwy'r gyfraith dirmyg – yw gwarchod hawl bwysig arall, sef yr hawl i dreial teg (sy'n cael ei warantu gan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol). Dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i warchod yr hawl i dreial teg y dylai cyfreithiau dirmyg ymyrryd â rhyddid mynegiant. Felly, mae ein cynigion dros dro yn ceisio diogelu'r ddau hawl hollbwysig hyn (er eu bod yn aml yn cystadlu â'i gilydd).



Erthygl 10: rhyddid mynegiant

Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i ddal barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau.

Erthygl 6: hawl i dreial teg

Wrth benderfynu ar hawliau a rhwymedigaethau sifil neu unrhyw gyhuddiad troseddol, mae gan bawb hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd drwy gyfraith.

Y fframwaith traddodiadol: dirmyg sifil a throreddol

Yn draddodiadol, mae dirmyg wedi'i rannu'n categorïau o ddirmyg sifil a throreddol. Mae dirmyg sifil yn cyfeirio at dorri gorchymyn llys gan barti mewn ymgyfreitha, megis torri gorchymyn rhewi a wnaed i atal unigolyn rhag tynnu asedau allan o'r wlad. Mae dirmyg throreddol yn ymwneud ag ymddygiad sy'n ymyrryd yn ddifrifol â gweinyddu cyfiawnder, megis ymyrryd â thystion neu darfu ar achos drwy weiddi yn y llys.

Mae categoreiddio dirmyg fel ymddygiad sifil neu ymddygiad throreddol yn achosi dryswch. Nid yw a yw dirmyg yn ymddygiad sifil neu'n ymddygiad throreddol yn dibynnu ar a yw wedi'i gyflawni mewn llys sifil neu droreddol, nac mewn achos sifil neu droreddol. Er enghraifft, gall person gyflawni dirmyg throreddol drwy amharu ar achos sy'n cael eu cynnal mewn llys sifil. Nid yw'r naill categori o ddirmyg yn droreddol, er y gall y ddau arwain at draddodi i garchar.

Yn fwy problemus, bu anghysondeb yn y gyfraith achosion ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei brofi er mwyn sefydlu atebolrwydd am ddirmyg, yn enwedig o ran yr hyn y mae angen i unigolyn fod wedi'i wybod neu ei fwriadu.

Yng ngoleuni'r problemau hyn, nid yw'r fframwaith presennol ar gyfer atebolrwydd am ddirmyg yn addas i'r diben. Mae'r gwahaniaeth rhwng dirmyg sifil a throreddol yn ddiangen ac yn ddi-fudd. Rydym yn cynnig dileu'r gwahaniaeth dros dro (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 1**) a rhoi fframwaith dirmyg syml a chydlynol yn ei le.

Fframwaith newydd ar gyfer atebolrwydd am ddirmyg

O dan ein fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer atebolrwydd, byddai tri math penodol o ddirmyg.


- Dirmyg cyffredinol
- Dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymgymeriad
- Dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol

Nid yw'r mathau arfaethedig hyn o ddirmyg wedi'u cynllunio i newid sylfeini atebolrwydd dirmyg yn sylfaenol (ac nid ydynt chwaith). Yn hytrach, mae dau bwrpas i'r fframwaith hwn. Yn gyntaf, egluro a chodeiddio'r elfennau sy'n ofynnol i brofi dirmyg.

Yn ail, mae'n ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwarchod hawliau treial teg ar y naill law a hawliau i ryddid mynegiant ar y llaw arall. Bydd yr hawliau a'r amddiffyniadau amrywiol hynny sy'n ofynnol o ddirmyg yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun a natur yr ymddygiad: mae'r ystyriaethau sy'n ymwneud â chyhoeddi achos llys yn amlwg yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud ag ymosod yn y llys neu dorri gorchymyn llys.

Ym Mhenodau 3, 4 a 5 y papur ymgynghori rydym yn ystyried y tri math hyn o ddirmyg yn fanwl ac yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau ymgynghori am atebolrwydd ar gyfer pob un ohonynt. Ceir crynodeb o'r tair ffurf isod.

Y mathau arfaethedig o ddirmyg llys



1. Dirmyg cyffredinol

Yn gyntaf, rydym yn cynnig dros dro ffurf gyffredinol o ddirmyg. Byddai'r math hwn o ddirmyg yn cynnwys unrhyw ymddygiad a fyddai'n ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder i raddau nad yw'n ddibwys, neu a fyddai'n creu risg sylweddol o ymyrraeth heb fod yn ddibwys â gweinyddu cyfiawnder. Gall yr ymddygiad hwn fod "yn wyneb y llys", fel bygwth cyfreithiwr yn ystod achos, neu gall fod yn bellach o ystafell y llys, fel cyhoeddi deunydd cyfrinachol y treial ar-lein. O dan ein fframwaith arfaethedig dros dro, byddai atebolrwydd am ddirmyg cyffredinol yn cynnwys dwy elfen, yn dibynnu a oedd yr ymddygiad drwy ei gyhoeddi ai peidio. Gallai'r elfen sy'n ymwneud â bai ar gyfer pob un fod yn wahanol, gan adlewyrchu'r angen i osgoi ymyrraeth anghymesur mewn rhyddid mynegiant.

1. Dirmyg cyffredinol drwy gyhoeddi. Byddai hyn yn cael ei gyflawni:

- pan fo ymddygiad unigolyn yn creu risg sylweddol o ymyrraeth nad yw'n ddibwys â gweinyddu cyfiawnder neu ymyrraeth wirioneddol nad yw'n ddibwys; a
- phan fo'r unigolyn yn bwriadu ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder. Ni fyddai dihidrwydd yn ddigon i sefydlu atebolrwydd.

2. Dirmyg cyffredinol drwy ymddygiad ar wahân i gyhoeddi. Byddai hyn yn cael ei draddodi:

- pan fo ymddygiad unigolyn yn creu risg sylweddol o ymyrraeth nad yw'n ddibwys â gweinyddu cyfiawnder neu ymyrraeth wirioneddol nad yw'n ddibwys; a
- phan fo'r unigolyn yn bwriadu ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder. Rydym hefyd yn gofyn i ymgynghoreion, ar gyfer y math hwn o ddirmyg cyffredinol, a ddylai gallu profi dihidrwydd fod yn ddigon o ran yr ymyrraeth.

Mae gan y term "dihidrwydd" yma yr un ystyr ag mewn cyfraith droseddol yn gyffredinol, sef bod yn rhaid dangos bod person wedi bod yn ymwybodol o'r risg o ymyrryd wrth weinyddu cyfiawnder, a rhaid dangos ei bod yn afresymol cymryd y risg honno.

Trafodir dirmyg cyffredinol yn fanwl ym Mhennod 3 y papur ymgynghori, lle'r ydym yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau ymgynghori ar yr elfennau ymddygiad a bai (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 3-17).**

2. Dirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymgymeriad

Yn ail, rydym yn cynnig dros dro ffurf o ddirmyg a gyflawnir drwy dorri gorchymyn llys neu ymgymeriad. Mae hwn yn fath ehangach o ddirmyg sifil (er ei fod yn debyg iawn o ran ffurf) gan y byddai'n dod â thorri unrhyw orchymyn llys o fewn ei gwmpas (nid dim ond y rhai a wnaed er budd parti mewn ymglyfreitha). Mae hyn yn bwysig wrth uno ac egluro'r dull sydd i'w fabwysiadu pan fydd gorchmynion llys yn cael eu torri.

Byddai'r math hwn o ddirmyg yn cael ei gyflawni:

- pan fo unigolyn yn torri gorchymyn neu ymgymeriad (lle mae'r gorchymyn neu'r ymgymeriad yn nodi'n glir y byddai torri'r gorchymyn yn gyfystyr â dirmyg);
- pan fo gweithred neu anweithred sy'n gyfystyr â'r tor-amod yn fwriadol;
- pan fo'r unigolyn yn gwybod bod y gorchymyn yn bodoli a'i fod wedi'i rwymo ganddo; a
- bod gan yr unigolyn wybodaeth am y ffeithiau sy'n gwneud yr ymddygiad yn anghyfreithlon.

Fel yn y gyfraith bresennol, ni fyddai angen dangos bod y sawl a dorrodd y gorchymyn wedi gwybod bod telerau'r gorchymyn yn atebol am ddirmyg. Mae'n ddigon i'r unigolyn wybod ei fod wedi'i rwymo gan orchymyn; ni ddylai wedyn ddianc rhag atebolrwydd drwy fethu â deall ei delerau.

Ym Mhennod 4, rydym hefyd yn cynnig dros dro y caiff ymgeisydd geisio rhwymedïau gorfodol interim gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaid â gorchmynion ac ymgymeriadau sydd wedi cael eu torri, ond heb yr angen i gychwyn achos dirmyg neu i lys wneud canfyddiad ffurfiol o ddirmyg.

Mae ein cynigion dros dro ynglŷn â rhwymedïau gorfodol interim wedi'u crynhoi isod (ar dudalen 15), ac maen nhw'n cael sylw yn y **Cwestiynau Ymgynghori 23-28**.

Edrychir ar ddirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymgymeriad ym Mhennod 4 y papur ymgynghori. Rydym yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau ymgynghori am atebolrwydd (gweler y **Cwestiynau Ymgynghori 18-22**).

3. Dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol

Yn olaf, rydym yn cynnig dros dro ffurf ar ddirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol, gan adlewyrchu ar ffurf debyg y gyfraith sydd eisoes yn bodoli yn Neddff Dirmyg Llys 1981.

Yn wahanol i'r math cyffredinol o ddirmyg, nid yw'r elfen sy'n ymwneud â bai o ran ein math arfaethedig dros dro o ddirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol yn gofyn am brawf bod yr unigolyn wedi bwriadu ymyrryd â gweinyddu cyfiawnder.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r elfen sy'n ymwneud â bai'r math presennol o ddirmyg "atebolrwydd cyfyngedig", sydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu'n briodol bwysigrwydd pennaf gwarchod hawl ymgyfreithiwr i dreial teg pan fydd achos yn weithredol (yn fwyaf arbennig hawl iau diffynnydd mewn treial troseddol) a'r angen cyfatebol i wahardd cyhoeddi deunydd a allai rwystro neu ragfarnu'r achos hwnnw'n ddifrifol.

Byddai'r math hwn o ddirmyg yn cael ei gyflawni:

- pan fo cyhoeddiad yn creu risg sylweddol y bydd cwrs cyfiawnder yn yr achos dan sylw yn cael ei rwystro neu ei ragfarnu'n ddifrifol pan fydd achos llys yn weithredol; a hefyd
- pan roedd y cyhoeddwr yn ddi-hid ynghylch a oedd yr achos yn weithredol (hynny yw, roedd yn gwybod neu roedd ganddo reswm dros amau bod yr achos yn weithredol). Lle bo'r diffynnydd yn ddosbarthwr, yn hytrach na chyhoeddwr, bydd angen profi eu bod yn ddi-hid ynghylch a oedd y deunydd a ddosbarthwyd yn creu risg sylweddol y byddai cwrs cyfiawnder yn yr achos dan sylw yn cael ei lesteirio neu ei ragfarnu'n ddifrifol.

Rhoddir sylw i ddirmygu drwy gyhoeddi pan fydd achosion yn weithredol ym Mhennod 5, lle rydym hefyd yn edrych ar y berthynas rhwng rhyddid mynegiant a'r angen i warchod y gwaith o weinyddu cyfiawnder (gweler y **Cwestiynau Ymgynghori 29-40**).

Gwarchod a phwerau

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag a yw llys, tribiwnlys neu gorff arall yn cael ei gwarchod gan y gyfraith dirmyg ac â'r pŵer i ddelio ag unigolyn am ymddygiad dirmygus yn gymhleth.

Mae “gwarchod” yn cyfeirio at p'un a yw'r gyfraith dirmyg yn berthnasol mewn llys, tribiwnlys neu gorff arall penodol (a yw'r llys yn gallu delio â'r dirmyg hwnnw drwy ryw fodd neu'i gilydd). Os nad oes gwarchodaeth dirmyg, yna nid yw'n bosibl dirmygu'r llys, y tribiwnlys na'r corff arall hwnnw.

Mae “pwerau” yn cyfeirio at bwerau llys, tribiwnlys neu gorff arall a ddiogelir i fynd i'r afael ag ymddygiad a allai fod yn ddirmyg.

Gall llys, tribiwnlys neu gorff arall gael ei warchod rhag dirmyg ond nid oes ganddo'r pŵer i ddelio â'r dirmyg ei hun. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai llys uwch yn penderfynu a fu dirmyg ac, os felly, yn gosod sancsiwn.

Ym Mhennod 6, rydym yn archwilio pa lysoedd, tribiwnlysoedd a chyrrff eraill sy'n cael eu gwarchod gan gyfraith dirmyg, a pha bwerau sydd ganddynt i fynd i'r afael ag ymddygiad dirmygus. Mae'r gwarchodaeth a'r pwerau'n anghyson ac yn aneglur, ac yn aml maent yn amrywio yn ôl natur yr ymddygiad a'r llys penodol lle mae'r ymddygiad hwnnw'n digwydd. Rydym yn gwneud cynigion dros dro i sicrhau

eglurder, cysondeb a chydlynid ar draws y cyrrff hyn. Byddai ein cynigion yn golygu y byddai gan yr holl lysoedd, tribiwnlysoedd a chyrrff eraill a warchodir rywfaint o bwerau i ddelio â dirmyg, gyda natur y pwerau hynny yn dibynnu ar a ydynt yn uwch lys cofnod ai peidio.

Gwarchod

Mae uwch lysoedd cofnod wedi'u gwarchod yn gynhenid gan gyfraith dirmyg. Mae enghreifftiau o uwch lysoedd cofnod yn cynnwys yr Uchel Lys, y Llys Apêl, yr Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

Ar gyfer cyrrff ar wahân i uwch lysoedd cofnod, mae'r sefyllfa'n anoddach. Bydd corff yn cael ei warchod rhag dirmyg os yw'n llys isradd. Mae'r warchodaeth yn ymestyn i'r rhai sy'n “arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth”, sef cyrrff sy'n “rhyddhau swyddogaethau barnwrol” ac “yn rhan o system farnwrol y wlad”.¹ Mae enghreifftiau o lysoedd isradd yn cynnwys y llys sirol, y llys teulu a'r llysoedd ynadon.



¹ *Twrnai Cyffredinol v BBC* [1981] AC 303 yn 339-340 (Viscount Dilhorne).

Er bod y llysoedd wedi nodi “nad oes unrhyw ganllaw pendant, na dilysnod digamsyniol y gellir ei ddefnyddio i nodi beth yw ‘llys’ ... yn ddi-feth”,² mae yna ffactorau a fydd yn dangos a yw corff yn arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth ac felly mae’n “llys” at y dibenion hyn. Mae’r ffactorau y canfu’r llysoedd eu bod yn dangos bod corff yn arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth yn cynnwys y ffaith bod y corff wedi’i sefydlu gan Senedd y Deyrnas Unedig, ei fod yn eistedd yn gyhoeddus, a’i fod yn gallu dyfarnu costau.

Yn y papur ymgynghori rydym yn ystyried a yw’r prawf hwn yn briodol. Ein barn dros dro yw ei fod yn adlewyrchu’n gywir y ffordd y mae pŵer barnwrol yn cael ei arfer yng Nghymru a Lloegr heddiw. Mae llawer o gyrff yn cael eu hadnabod fel llysoedd, ac mae’r prawf presennol, ynghyd â’r ffactorau sy’n nodi a yw wedi’i fodloni, yn cynnig sail briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch pa gyrff sy’n “llysoedd” a pha rai nad ydynt. Felly, yn y papur ymgynghori, rydym yn dod i’r casgliad dros dro y dylid cadw’r prawf presennol ar gyfer penderfynu a yw corff yn “llys” at ddibenion dirmyg (gweler **Cwestiwn Ymgynghoriad 41**).

Fodd bynnag, rydym yn poeni nad oes gan y drefn bresennol ddigon o sicrwydd a rhagweladwyedd. Oni bai y dywedwyd mewn dyfarniad bod corff penodol yn llys neu ddim yn llys at ddibenion dirmyg, yna ni all ymgyfreithwyr, eu cynrychiolwyr, a’r rhai sy’n eistedd ar y paneli hynny fod yn sicr a oes gan y llys warchodaeth dirmyg. Mae’r prawf ynghylch a yw corff yn arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth wedi cael ei ddefnyddio ar sail ad hoc, sydd wedi gadael

tirwedd anghyson ac aneglur o warchodaeth dirmyg mewn tribiwnlysoedd a chyrff eraill.

Er enghraifft, mae dyfarniadau wedi awgrymu bod y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a rhai siambrau y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, fel y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Treth), yn arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth ac felly’n cael eu gwarchod gan y gyfraith dirmyg. Ymhellach, datganwyd bod rhagflaenwyr rhai siambrau, sef y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Eiddo) a’r Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol), yn “llysoedd” at ddibenion dirmyg, felly gellir gwarchod y siambrau hyn o’r Tribiwnlys yr Haen Gyntaf. Mae statws gwarchodaeth dirmyg yn siambrau eraill y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn dibynnu ar y cwestiwn a ydynt yn arfer pŵer barnwrol y wladwriaeth, sydd i’w benderfynu gan gyfraith achosion.

Ein barn dros dro yw bod yr ansicrwydd hwn yn anfoddhaol. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig dros dro y dylai’r diffiniad statudol o’r hyn sy’n gyfystyr â llys at ddibenion dirmyg gael ei ategu gan restr nad yw’n gynhwysfawr o’r uwch lysoedd, y llysoedd isradd, y tribiwnlysoedd a chyrff eraill yr ystyrir eu bod yn “llys” at ddibenion dirmyg, ac sydd felly’n cael eu gwarchod (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 42**). Rydym hefyd yn gwneud cynnig dros dro ynghylch pa gyrff ddylai fod ar y rhestr hon, sy’n cynnwys ehangu gwarchodaeth dirmyg i holl siambrau’r Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 43**).

² *Turnai Cyffredinol v BBC* [1981] AC 303 yn 351 (Yr Arglwydd Edmund-Davies).

Pwerau i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n ymddangos yn ddirmygus

Mae pwerau llys, tribiwnlys neu gorff arall a warchodir i fynd i'r afael ag ymddygiad a allai fod yn ddirmyg yn cynnwys y pethau canlynol:

- Pŵer llys, tribiwnlys neu gorff arall i ddelio ag ymddygiad o'r fath ei hun. Hynny yw, pŵer llys neu dribiwnlys i gychwyn neu ystyried achos dirmyg, boed hynny ynglŷn â dirmyg ynddo'i hun neu gorff barnwrol arall, ac a oes rhaid cychwyn achos ar gais neu ar gynnig y llys ei hun, neu'r ddau.
- Pŵer llys, tribiwnlys neu gorff arall i gyfeirio ymddygiad o'r fath i'w drin gan lys neu dribiwnlys arall, gyda golwg ar i'r corff hwnnw wneud dyfarniad ynghylch a fu dirmyg.

Rydym yn ystyried y pwerau hyn yma ac ym Mhennod 6. Rydym yn ystyried y pŵer i osod sancsiwn am ddirmyg isod wrth drafod y drefn sancsiynau (o dudalen 16) ac ym Mhennod 10.

Mewn cyfraith gyffredin, mae pwerau llys, tribiwnlys neu gorff arall i fynd i'r afael ag ymddygiad dirmygus yn dibynnu ar y pethau canlynol:

- uwch lys cofnod, sy'n golygu bod ganddo'r pŵer i ddelio ag unrhyw ddirmyg sy'n effeithio ar ei achos ei hun;
- llys isradd sydd hefyd yn llys cofnod, sy'n golygu bod ganddo'r pŵer i ddelio â dirmyg a gyflawnwyd yn ei wyneb; neu
- llys isradd nad yw'n llys cofnod, sy'n golygu nad oes ganddo bŵer i ddelio â dirmyg ei hun, ond gall gyfeirio'r dirmyg i'r Uchel Lys.

Mae dwy broblem sylweddol gyda phwerau dirmyg presennol llysoedd isradd, tribiwnlysoedd a chyrff eraill a warchodir.

Yn gyntaf, mae'n aml yn anodd nodi pa bwerau sydd gan gorff i fynd i'r afael ag ymddygiad dirmygus. Mae'n bosibl y bydd gan yllys, y tribiwnlys neu'r corff arall bwerau statudol yn ogystal â'u pwerau yn y gyfraith gyffredin. Er enghraifft, nid yw'r llys ynadon yn llys cofnod ac felly nid yw'n gallu delio â dirmyg cyfraith gyffredin, ond fe all (trwy ei bwerau statudol o dan adran 12 Deddf Dirmyg Llys 1981) ddelio â dirmyg yn ei wyneb. Felly, nid yw'r ffaith bod llys isradd yn llys cofnod hefyd o reidrwydd yn ddangosydd cywir o'i bwerau i ddelio â dirmyg ei hun.

Yn ail, nid yw pwerau llysoedd isradd, tribiwnlysoedd a chyrff eraill yn caniatáu mynd i'r afael yn effeithiol ag ymddygiad dirmygus. Rydym wedi clywed pryderon sylweddol gan aelodau o farnwriaeth y tribiwnlysoedd nad yw pŵer tribiwnlysoedd gwarchodedig i gyfeirio dirmyg i'r Uchel Lys yn ddigonol i'w cynorthwyo i reoli achosion. Dywedwyd wrthym y "byddai'r pŵer i gymryd camau ar unwaith ar sail dirmyg llys, neu (yn fwy ymarferol) bygwth gwneud hynny, yn arf gwerthfawr i dribiwnlysoedd sy'n wynebu sefyllfa heriol yn ystod gwrandawriad."

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg eglurder ynghylch pwerau cyrff gwarchodedig a phryderon nad oes gan rai cyrff ddigon o adnoddau i sicrhau gweinyddu cyfiawnder, rydym yn cynnig fframwaith symlach a mwy unfurf o bwerau i bob llys, tribiwnlys a chorff arall is a warchodir. Ni fyddai'r fframwaith hwn yn gwahaniaethu rhwng llysoedd isradd sy'n llysoedd cofnod a'r rhai nad ydynt, felly byddai'n gliriach i bawb sy'n ymwneud â'r achos wybod beth yw pwerau'r llys.

Ein barn dros dro yw y dylid ehangu pwerau llysoedd isradd gwarchodedig, tribiwnlysoedd a chyrff eraill i'w galluogi i fynd i'r afael yn effeithiol ag ymddygiad sy'n ymddangos yn ddirmygus yn eu hachos. Mae hyn yn golygu y bydd gan bob corff a warchodir ryw fath o bŵer hefyd i ddelio â dirmyg.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai unrhyw gorff gwarchodedig nad yw'n uwch lys cofnod fod â'r pwerau canlynol (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 48):**

- y pŵer i ddelio â dirmyg cyffredinol drwy ymddygiad ar wahân i gyhoeddi a dirmyg drwy dorri gorchymyn, ond nid i ddelio â dirmyg cyffredinol drwy gyhoeddi na dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achos yn weithredol; a hefyd
- y pŵer i gyfeirio unrhyw fath o ddirmyg i'r Uchel Lys, neu, yn achos y Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, i'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn y drefn honno.

Rydym wedi cynnig dros dro na ddylid ymestyn pwerau llysoedd isradd gwarchodedig, tribiwnlysoedd a chyrff eraill i ddelio â dirmyg eu hunain i gynnwys dirmyg cyffredinol drwy gyhoeddi na dirmyg drwy gyhoeddi pan fydd achosion yn weithredol. Dylent gael y pŵer i gyfeirio dirmyg o'r fath i'r Uchel Lys yn unig. Y rheswm am hyn yw bod y mathau hyn o ddirmyg yn ymwneud yn benodol â'r hawl i ryddid mynegiant o dan erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac felly mae'n fwy priodol i'r mater gael ei ddyfarnu gan yr Uchel Lys, sydd ag arbenigedd penodol mewn delio â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Sut byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar Gymru?



Byddai ein cynigion dros dro yn berthnasol i dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn union fel y maent yn berthnasol i dribiwnlysoedd eraill. Ni fyddai unrhyw wahaniaeth.

Gan fod strwythur system tribiwnlysoedd Cymru yn debygol o newid yn dilyn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru a Phapur Gwyn dilynol Llywodraeth Cymru, mae cwestiynau ein hymgyngoriad wedi'u hanelu at beth ddylai'r sefyllfa fod o dan system newydd. Mae hyn yn golygu bod cwestiynau ein hymgyngoriad yn seiliedig ar fodolaeth Tribiwnlys yr Haen Gyntaf i Gymru a Thribiwnlys Apêl i Gymru.

Byddai ein cynigion dros dro yn cael effaith sylweddol ar y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. O dan y gyfraith bresennol, nid oes gan y tribiwnlysoedd datganoledig warchodaeth dirmyg ac felly nid oes ganddynt unrhyw bwerau i ddelio ag ymddygiad sy'n ymddangos yn ddirmygus.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai holl siambrau'r yr Haen Gyntaf i Gymru gael eu gwarchod rhag dirmyg (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 44 a 45), ac y dylent fod â'r un pwerau i ddelio â dirmyg â phob llys isradd, tribiwnlys a chorff arall sy'n cael ei warchod (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 49**).**

Rhwymedïau gorfodi interim

Mae ceisiadau dirmyg am dorri gorchmynion yn fath cynyddol gyffredin a drud o ymglyfreitha lloeren. Ar ben hynny, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad yw'n anghyffredin i'r rheini sydd wedi'u rhwymo gan orchymyn neu ymrwymiad i wrthod cydymffurfio â'u rhwymedigaethau nes y gwneir cais am ddirmyg. Dim ond mewn bygythiad o gosb y mae'r gorfodaeth yn bodoli. Nid oes unrhyw rwymedi gorfodol ar gyfer diffyg cydymffurfio parhaus.

Ym Mhennod 4 (gwrthwynebu drwy dorri gorchymyn neu ymgymeriad) rydym yn cynnig trefn a fyddai'n rhoi cyfres o rwymedïau interim i'r llys i orfodi cydymffurfiaid â gorchmynion ac ymgymeriadau llys, a mynnu llai o amser ac adnoddau barnwrol nag achos o ddirmyg llawn.

Dan y gyfraith bresennol, nid oes gan lysoedd unrhyw bwerau i orchymyn rhwymedïau i sicrhau y cydymffurfir â gorchymyn neu ymgymeriad, nac i sancsiynu diffyg cydymffurfio, heb gymryd rhan mewn achos dirmyg llawn yn gyntaf. Dim ond ar ôl profi dirmyg i'r safon droseddol (y tu hwnt i amheuaeth resymol) y mae sancsiynau ar gael. Y tu allan i'r gyfundrefn gostau, ychydig iawn o rwymedïau, os o gwbl, sydd ar gael i'r llys ar wahân i achos dirmyg llawn. Mae hyn yn golygu gwastraffu amser ac adnoddau barnwrol. Hyd yn oed pan roddir sancsiwn, megis dirwy neu draddodi i garchar, nid yw'r rhain yn arfau effeithiol ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid â gorchymyn neu ymgymeriad oherwydd eu bod yn ceisio cosbi'r sawl sydd wedi cyflawni dirmyg (y dirmygwr) ar ôl y weithred.

Yn y papur ymgynghori, rydym yn cynnig dros dro y dylai trefn newydd o rwymedïau gorfodi interim fod ar gael i'r llysoedd mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â gorchymyn neu ymgymeriad (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 23**). O dan ein trefn arfaethedig, byddai'r llysoedd yn gallu dyfarnu rhwymedi interim am dorri gorchymyn neu ymgymeriad heb fod angen gwneud canfyddiad o ddirmyg (er na fyddai'r rhwymedïau interim yn atal cais dilynol am achos dirmyg). Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd brofi, yn ôl pwysau tebygolrwydd, yr ymddygiad a'r elfennau sy'n ymwneud â bai o ddirmyg drwy dorri gorchymyn neu ymgymeriad (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 24 a 25**). Mae hwn yn brawf o safon is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cais am ddirmyg (sy'n gofyn am brawf y tu hwnt i amheuaeth resymol). Credwn fod hyn yn briodol ar y sail y dylai'r drefn rhwymedi interim fod yn llai costus ac yn cymryd llai o amser llys na chais dirmyg.



Rydym yn dod i'r casgliad dros dro y byddai'r safon prawf sydd fel arfer yn berthnasol i rwymedïau interim ("achos da y gellir ei ddadlau") yn drothwy rhy isel o ystyried difrifoldeb y rhwymedïau interim. Mae angen iddynt fod yn ddigon difrifol i orfodi cydymffurfiaeth os yw parti eisoes wedi methu â chydymffurfio. Felly, mae cyddestun rhwymedïau interim am ddirmyg yn wahanol i rwymedïau interim yn gyffredinol.

Gall rhwymedïau interim gynnwys, er enghraifft: talu swm o arian i'r llys gan y diffynnydd, naill ai drwy flaendal neu daliad cyfnodol; atafaelu asedau, pasbort neu ddogfennau eraill y diffynnydd. Yn y papur ymgynghori, rydym yn gofyn nifer o gwestiynau am y diwygiadau arfaethedig (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 23-28**).

Y drefn sancsiynau ar gyfer dirmyg llys

Ar ôl i lys wneud canfyddiad o ddirmyg, gall roi sancsiwn. Ar hyn o bryd, carchar yw'r sancsiwn ar gyfer dirmyg, a all fod ar unwaith neu wedi'i ohirio, yn ogystal â dirwyon. Mae atafaelu asedau hefyd yn opsiwn ond, ar yr adegau y gorfodir hyn, dim ond pan fydd gorchymyn wedi'i dorri y caiff ei ddefnyddio i raddau helaeth.



Pwerau i osod sancsiynau ar gyfer dirmyg

Dan y gyfraith bresennol, mae pwerau'r llysoedd i osod sancsiwn ar gyfer dirmyg yn amrywio. Mae Adran 14 Deddf Dirmyg Llys 1981 yn darparu ar gyfer y sancsiynau mwyaf posibl hyn:

- Gall llys uwch garcharu dirmygwr am uchafswm o ddwy flynedd neu roi dirwy ddiderfyn.
- Gall llys isradd bennu uchafswm o un mis ar gyfer traddodi i garchar a'r ddirwy uchaf yw £2,500.
- Ni chaiff tribiwnlysoedd a chyrff eraill osod sancsiynau.

Ar gyfer uwch lysoedd, nid ydym wedi clywed tystiolaeth bod y cyfyngiad dwy flynedd ar draddodi neu'r ddirwy ddiderfyn yn amhriodol nac yn aneffeithiol. Yn y papur ymgynghori, rydym yn gofyn nifer o gwestiynau am y diwygiadau arfaethedig (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 100 a 111**).

Yn y papur ymgynghori rydym hefyd yn trafod statws y llys sirol. Dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981, caiff y llys sirol ei drin fel llys uwch. Rydym yn cynnig dros dro y dylai gadw'r statws hwnnw, ac os bydd amrywiaeth ehangach o sancsiynau ar gael ar gyfer llysoedd uwch, y byddai'r sancsiynau hynny hefyd ar gael i'r llys sirol (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 117**).

O ran llysoedd isradd, tribiwnlysoedd a chyrff eraill, ein barn dros dro yw y dylid cael cysondeb yn y drefn sancsiynau, ac y dylai llysoedd isradd, tribiwnlysoedd a chyrff eraill i gyd gael yr un pwerau sancsiynau â'i gilydd, a ddylai fod yn ein barn ni (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 118**):

1. y pŵer i orchymyn traddodi am hyd at fis (ar unwaith neu wedi'i ohirio); a hefyd
2. y pŵer i osod dirwy o hyd at £2,500.

Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn gweld a ddylid cael eithriadau i hyn. Lle y gellir cyfiawnhau sancsiwn mwy difrifol, rydym yn cynnig dros dro fecanwaith cyfeirio fel y gellir trosglwyddo'r achosion hynny i lys uwch (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 48**).

Opsiynau sancsiynau

Gall sancsiynau am ddirmyg llys fod yn llym, felly mae'n bwysig bod y gyfraith yn glir ac yn gyson. Yn y papur ymgynghori rydym yn ystyried gwahanol agweddau ar yr opsiynau sancsiynau presennol: er enghraifft, atal dedfrydau, rhyddhau'n gynnar, sancsiynau am ddirmyg drwy gyhoeddi, a sancsiynau am ddirmyg drwy dorri Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ("ASBI"). Rydym yn gofyn i ymgynghoreion sut y dylid egluro'r gyfraith a'i chodeiddio.

Rydym hefyd yn gofyn a yw'r opsiynau sancsiynau yn deg a chymesur, ac a oes gan lysoedd ddigon o bwerau i sicrhau bod unrhyw sancsiynau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd â chyflyrau iechyd meddwl, a phlant a phobl ifanc yn briodol.

Y prif bryder a godwyd gan randdeiliaid ynglŷn â sancsiynau am ddirmyg oedd nad oes gan lysoedd amrywiaeth ddigonol o opsiynau sancsiynau. Rydym wedi clywed y dylai amrywiaeth ehangach o opsiynau fod ar gael, fel dedfrydau cymunedol a'r pŵer i gael adroddiadau cyn-dedfrydu. Rydym yn gwneud pedwar cynnig dros dro craidd a fyddai'n diwygio'r drefn sancsiynau'n sylweddol.

1. Dedfrydau cymunedol

Ar hyn o bryd, nid yw dedfrydau cymunedol, sy'n wahanol i ddedfrydau o garchar, ar gael fel sancsiwn am ddirmyg llys. I'r gwrthwyneb, wrth ddedfrydu troseddwr, gall llysoedd orchymyn dedfryd gymunedol. Mae dedfrydau cymunedol yn cynnwys amodau, er enghraifft i wneud gwaith di-dâl, glynu wrth ofyniad cyrffiw neu breswyllo, cael triniaeth iechyd meddwl neu driniaeth cyffuriau ac alcohol, neu gydymffurfio â chyfyngiadau a monitro lleoliad.

Mae llawer o gefnogaeth i gyflwyno dedfrydau cymunedol am ddirmyg oherwydd, yn gyntaf, mae dedfrydau o garchar yn opsiwn llym ac, oherwydd nad oes gan y llysoedd lawer o ddewisiadau eraill, gallant arwain at sancsiynau llym iawn. Yn ail, mae tystiolaeth yn awgrymu bod dedfrydau cymunedol yn effeithiol ac yn llai costus na dedfrydau o garchar. Yn drydydd, nid oes rheswm da pam y dylai dedfrydau cymunedol fod ar gael ar gyfer troseddau ond nid ddirmyg. Felly, rydym yn cynnig dros dro y dylai dedfrydau cymunedol fod ar gael fel sancsiwn am ddirmyg llys (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 114**).

2. Adroddiadau cyndedfrydu

Ar hyn o bryd nid oes gan lysoedd y pŵer i orchymyn Adroddiad Cyn Dedfrydu wrth ddedfrydu am ddirmyg, er y gallant wneud hynny wrth ddedfrydu troseddwr am drosedd. Mae'r Adroddiad hwn yn cynorthwyo'r llys i benderfynu ar y ddedfryd fwyaf addas, gan gynnwys a ddylid gorchymyn dedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol. Mae absenoldeb Adroddiadau Cyn Dedfrydu o achos ddirmyg yn ddiffyg ac mae'n golygu bod unigolion agored i niwed, sydd weithiau heb eu cynrychioli, yn ymddangos gerbron y llys i'w dedfrydu heb i'w gwendidau gael eu hystyried yn ddigonol.

Er bod paratoi Adroddiad Cyn Dedfrydu yn gofyn am adnoddau, ein barn dros dro yw y dylai llysoedd gael y pŵer i orchymyn Adroddiad Cyn Dedfrydu wrth ddedfrydu am ddirmyg gan fod y manteision yn drech na'r baich (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 104 a 105**). Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y ddirmyg yn torri ASBI, gan ein bod wedi clywed bod nifer y bobl sy'n agored i niwed ym maes iechyd meddwl yn uwch ymysg y rheini sy'n torri ASBIs na'r rheini sy'n cyflawni mathau eraill o ddirmyg.

Os oes gan lysoedd bwerau i gael Adroddiadau Cyn Dedfrydu, efallai y bydd arnynt angen pŵer i remandio ddirmygwr yn y ddalfa tra bo'r adroddiad yn cael ei baratoi. Yn y rhan fwyaf o achosion, pan fydd adroddiad yn cael ei baratoi fel sail ar gyfer dedfrydu, dylai'r unigolyn fod â hawl i fechnïaeth, fel yn y cyd-destun troseddol cyffredin. Fodd bynnag, os yw dedfryd o garchar yn debygol iawn, efallai y bydd angen i'r llys remandio'r ddirmygwr yn y ddalfa. Nid oes ganddynt y pŵer hwnnw ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael pŵer i remandio yn y ddalfa ar ôl cael canfyddiad o ddirmyg, ond cyn dedfrydu (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 106**).

3. Canllawiau ar gyfer dedfrydu am ddirmyg

Pan ddedfrydir troseddwyd mewn achosion troseddol, mae llysoedd yn cyfeirio at ganllawiau dedfrydu a gynhrychir gan Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr. Mae canllawiau dedfrydu yn sicrhau cysondeb a thryloywder wrth ddedfrydu troseddwyd.

Nid oes canllawiau ar gyfer dedfrydu am ddirmyg, ac nid yw paratoi canllawiau o'r fath yn dod o fewn cylch gwaith statudol y Cyngor Dedfrydu. Dros amser, mae llysoedd wedi datblygu egwyddorion cyffredinol i'w cymhwyso wrth ddedfrydu ar gyfer gwahanol fathau o ddirmyg. Fodd bynnag, mae diffyg canllawiau penodol yn golygu bod anghysonderau mewn achosion o ddirmyg, a diffyg tryloywder yn gyffredinol.

Rydym yn cynnig dros dro y dylai canllawiau gael eu datblygu gan weithgor barnwrol sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o arbenigedd ar ddedfrydu ddirmyg mewn gwahanol gyd-destunau (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 121**).

4. Cofnodion troseddol

Mae rhywfaint o ddryswch ynghylch pryd y cofnodir ddirmyg yn y gronfa ddata ganolog o gofnodion troseddol ac yn ymddangos ar dystysgrif cofnod troseddol. Cofnodir gwybodaeth sy'n cynnwys euogfarnau a rhybuddion troseddol ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ("PNC") ac fe'i defnyddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ("DBS") i gynhyrchu tystysgrifau cofnod troseddol. Weithiau cofnodir ddirmyg ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac mae'n ymddangos ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gall hyn ddigwydd pan fydd ddirmyg, er enghraifft, yn cyd-fynd â throsedd y gellir ei chofnodi.

Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r arfer o gofnodi ddirmyg yn gyson nac yn ddealladwy, gyda'r canlyniad ei fod weithiau, ond nid bob amser, yn ymddangos ar dystysgrif.

Nid yw ddirmyg yn drosedd ac nid yw'n arwain at euogfarn. Mae'n amlwg o'r ddeddfwriaeth na ddylai ddirmyg gael ei gofnodi yng Nghyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac na ddylai ymddangos ar gofnod troseddol. Mae cofnodion troseddol yn cael effaith ddifrifol ar fywydau pobl ac rydym yn dod i'r casgliad dros dro y dylid ei gwneud yn glir na ddylid byth cofnodi ddirmyg yn y PNC ac na ddylai fyth ymddangos ar dystysgrif cofnod troseddol (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 122 ac 123**).

Cofnodi a chyhoeddi data sancsiynau

Nid yw canfyddiadau twyllodrus a sancsiynau'n cael eu cofnodi'n systematig yn y system gyfiawnder. Nid ydym yn gwybod, er enghraifft, yn erbyn faint o bobl y cafwyd eu bod yn euog o ddirmyg, pa sancsiynau sydd wedi'u gosod (a phan nad oes sancsiwn wedi'i roi), ym mha lysoedd, ac o dan ba amgylchiadau. Mae hyn yn cynrychioli bwlch data sylweddol.

Mae llawer o resymau pam y byddai'n werthfawr cael data o'r fath, gan gynnwys gwella cysondeb a thegwch mewn sancsiynau a sicrhau tryloywder ynghylch nifer yr achosion traddodi am ddirmyg a hyd dedfrydau. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyhoeddi data'n flynyddol mewn perthynas ag achosion traddodi am ddirmyg (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 124**).

Dewisiadau arfaethedig ar gyfer sancsiynau

Llysoedd Isradd

Gan gynnwys Llysoedd Crwneriaid
a Llysoedd Ynadon



Rydym yn cynnig yn amodol
y dylai tribiwnlysoedd a chyrrff
sy'n arfer pŵer barnwrol
y wladwriaeth gael yr
un pwerau sancsiynau
â llysoedd isradd

Dewisiadau sancsiynau

Traddodi (ar unwaith neu wedi'i ohirio)
am hyd at uchafswm o fis

Dirwy hyd at uchafswm o £2,500

Uwch Lysoedd

Yn cynnwys Llys y Goron, yr Uchel
Lys, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys



Rydym yn cynnig yn amodol
y dylai'r Llys Sirol gael yr
un pwerau sancsiynau
â llysoedd uwch

Dewisiadau sancsiynau

Adroddiadau Cyn-Dedfrydu

Traddodi (ar unwaith neu wedi'i ohirio)
am hyd at uchafswm o ddwy flynedd

Dirwy ddiderfyn

Secwestru asedau

Dedfrydau cymunedol

**Pan fydd llys isradd yn dod ar draws mater y mae'n ei ystyried y gallai fod
angen sancsiynau sydd ar gael i'r llysoedd uwch yn unig, yna gall gyfeirio'r
mater i fyny fel ei fod yn cael ei benderfynu gan lys uwch**

Rôl a phwerau'r Twrnai Cyffredinol

Mae'r Twrnai Cyffredinol yn un o weinidogion y llywodraeth ac yn brif gynghorydd cyfreithiol i'r llywodraeth. Mae'r Twrnai Cyffredinol hefyd yn cyflawni swyddogaeth gyfansoddiadol o ran dwyn achos am ddirmyg i ddiogelu budd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn chwarae rhan sylweddol ynglŷn â dirmyg drwy gyhoeddi, er enghraifft drwy rybuddio cyhoeddwr i osgoi adrodd lle gallai beryglu achos parhaus³ a thrwy gydsynio i ddwyn achos o'r fath.⁴

Fel aelod o'r llywodraeth a seneddwr, mae gan yr Twrnai Cyffredinol gymeriad gwleidyddol yn ei hanfod. Mae hyn wedi arwain at feirniadaeth y gallai rôl yr

Twrnai Cyffredinol o ran y gyfraith dirmyg gynnwys gwrthdaro rhwng buddiannau ar y sail nad yw'r Twrnai Cyffredinol yn ddigon annibynnol. Er enghraifft, pan fydd cyhoeddiad a allai fod yn ddirmyg yn cael ei wneud gan wleidydd neu sefydliad cyfryngau pleidiol, gellir ystyried bod penderfyniadau gan yr Twrnai Cyffredinol ynghylch a ddylid dwyn achos dirmyg yn cael eu hysgogi'n wleidyddol.

Yn y papur ymgynghori rydym yn ystyried y pryderon hyn, er ein bod ni'n dod i'r casgliad dros dro y dylai'r Twrnai Cyffredinol gadw'r rôl, yn enwedig oherwydd bod ffyrdd eraill o liniaru'r pryderon (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 50**).



³ Er enghraifft, roedd hysbysiad cynghori ar y cyfryngau yn rhybuddio rhag cyhoeddi deunydd a allai beryglu treial teg o ran diflaniad Sarah Everard (12 Mawrth 2021): www.gov.uk/government/news/media-advisory-notice-disappearance-of-sarah-everard

⁴ Dan Ddeddf Dirmyg Llys 1981, rhaid i achosion am ddirmyg atebolrwydd caeth gael cydsyniad yr Twrnai Cyffredinol oni bai fod y llys ei hun yn cynnal achos.

Gofyniad cydsynio

Ar hyn o bryd, rhaid i'r Twrnai Cyffredinol bob amser gydsynio i achos dirmyg drwy ei gyhoeddi pan fydd yr achos yn weithredol. Mae'n ofyniad pwysig i atal nifer fawr o geisiadau am ddirmyg amhriodol rhag cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i ymgynghoreion a oes modd ei addasu, a sut mae modd gwneud hynny (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 51 a 52**). Er enghraifft, gallai llys roi caniatâd os yw'r Twrnai Cyffredinol yn gwrthod rhoi caniatâd, neu, os yw'r darpar ddiffynnydd yn wleidydd, gallai'r gofyniad caniatâd gael ei ddileu'n llwyr a'i ddisodli gan ofyniad caniatâd barnwrol.

Rydym hefyd yn gwneud cynigion dros dro ynghylch a ddylai penderfyniadau'r Twrnai Cyffredinol i beidio â dwyn achos dirmyg, neu i beidio â chydsynio i achos o ddirmyg, fod yn rhai y gellir eu hadolygu'n farnwrol (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 53 a 54**). Ar hyn o bryd, mae penderfyniadau o'r fath yn rhydd o adolygiad barnwrol. Byddai'r diwygiad arfaethedig hwn yn golygu, pe bai anghyfreithlondeb, afresymoldeb neu annhegwch gweithdrefnol, y gallai llysoedd adolygu a gosod penderfyniadau'r Twrnai Cyffredinol o'r neilltu. Byddai hyn yn golygu mwy o atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn eu penderfyniadau.

Gwella cysondeb, rhagweladwyedd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau

Mae gwahanol Dwrneiod Cyffredinol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ymdrin â'u rôl ynghylch dirmyg. Er enghraifft, mae rhai Twrneiod Cyffredinol yn weithgar iawn wrth arfer eu pwerau i ddwyn achos am ddirmyg. Nid yw twrneiod eraill yn canolbwyntio cymaint ar achosion o ddirmyg. Mae'r amrywiad hwn yn arwain at anghysondebau pan fydd achosion yn cael eu dwyn er budd y cyhoedd. Mae unfurfiaeth yn afrealistig, ond mae rhywfaint o gysondeb a natur ragweladwy wrth arfer disgresiwn rhwng gwahanol unigolion yn ddymunol fel y gall pobl wybod a fydd eu hymddygiad yn arwain at achos.

Yn 2022, cyhoeddodd Swyddogion y Gyfraith Fframwaith Budd Cyhoeddus Dirmyg sy'n nodi'r ffactorau y mae'r Twrnai Cyffredinol yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch dirmyg. Fodd bynnag, nid yw'n glir o hyd sut y gwneir penderfyniad yn erbyn y meini prawf. Yn y papur ymgynghori, rydym yn ystyried y ffordd orau o sicrhau tryloywder.

Er mwyn gwella tryloywder, cysondeb a'r gallu i ragweld, rydym yn cynnig dros dro y dylai'r Twrnai Cyffredinol gyhoeddi datganiad ymarfer sy'n nodi eu prosesau gwneud penderfyniadau (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 55**). Rydym hefyd yn cynnig dros dro y dylai'r Twrnai Cyffredinol gyhoeddi data sy'n ymwneud â'u swyddogaeth dirmyg oherwydd nad oes data o'r fath yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 63-64**). Gallai hyn gynnwys cyhoeddi nifer yr atgyfeiriadau dirmyg neu geisiadau i roi caniatâd a dderbyniwyd gan y Twrnai Cyffredinol, y penderfyniadau a wnaed ganddo, neu ganlyniadau unrhyw achos.

Egluro pwerau i gael gwybodaeth a'i rhannu ar gyfer gwneud penderfyniadau

Mae'r Twrnai Cyffredinol angen gwybodaeth cyn y gallant ddwyn achos am ddirmyg. Mae rhywfaint o wybodaeth yn hanfodol, fel enw a chyfeiriad y diffynnydd yn ogystal â phrawf o'r ymddygiad honedig (er enghraifft, sgrinlun o bost cyfryngau cymdeithasol sy'n datgan bod diffynnydd mewn achos troseddol gweithredol yn euog). Gallai gwybodaeth arall fod o gymorth wrth benderfynu a fyddai dwyn achos er budd y cyhoedd. Gall hyn gynnwys a gafwyd y diffynnydd yn euog o ddirmyg o'r blaen neu a oes ganddo unrhyw euogfarnau troseddol.

Mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gael gwybodaeth i helpu'r Twrnai Cyffredinol. Fodd bynnag, gall fod yn anodd weithiau i'r Swyddfa gael gafael ar wybodaeth.

Er enghraifft, gellir gwneud cyhoeddiadau ar-lein yn ddienw, felly nid yw bob amser yn hawdd i'r Swyddfa benderfynu yn erbyn pwy y dylai'r Twrnai Cyffredinol ddwyn achos. Heb fynediad at wybodaeth am euogfarnau troseddol neu ddirmyg yn y gorffennol, efallai na fydd y Twrnai Cyffredinol yn gallu penderfynu a fyddai dwyn achos er budd cyfiawnder.

Mae'r Twrnai Cyffredinol yn arfer swyddogaeth gyfansoddiadol bwysig o ran diogelu budd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder, felly mae'n bwysig bod Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen ar y Twrnai Cyffredinol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae hefyd yn bwysig bod y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu pwerau Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i gael gwybodaeth yn ddigon clir a hygyrch i'r cyhoedd.

Yn y papur ymgynghori, rydym yn ystyried y fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu a chael data personol. Rydym yn gofyn i ymgynghoreion am bwerau'r Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i gael gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â data cyfathrebu gan lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn ystyried pwerau'r heddlu i rannu gwybodaeth sydd ganddynt eisoes gyda Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol. Dan y fframwaith cyfreithiol, efallai y bydd yr heddlu'n rhannu gwybodaeth hanfodol, ond nid gwybodaeth sy'n ddefnyddiol yn unig. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r heddlu gael gwybodaeth ar ran Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, ond dim ond dan amgylchiadau cyfyngedig iawn. Rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith yn foddhaol ond bod angen ei hegluro mewn statud (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 57-59**).



Y drefn mewn achos o ddirmyg

Dylai'r drefn ar gyfer achos o ddirmyg fod yn ddigon syml a rhagnodol i sicrhau y gellir ei defnyddio lle bo angen, gan hefyd ddiogelu'n ddigonol hawl diffynnydd i dreial teg o dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r perwyl hwnnw, rydym yn gwneud cynigion dros dro ar gyfer trefn glir, gynhwysfawr a, lle bo'n bosibl, unffurf sy'n galluogi llysoedd, tribiwnlysoedd a chyrrff eraill i ddelio'n deg, yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gyson ag ymddygiad a allai fod yn ddirmyg llys.

Cysoni ac egluro

Mae'r gweithdrefnau presennol sy'n cael eu dilyn mewn achosion o ddirmyg yn amrywio ac yn aml yn brin o fanylion ac eglurder. Clywsom gan randdeiliaid y gall hyn ei gwneud yn anodd i farnwyr ddeall pryd y dylid defnyddio'r weithdrefn ddirmyg a sut y dylai edrych, gan arwain at amharodrwydd ymysg barnwyr i ddefnyddio eu pwerau dirmyg. Yn y papur ymgynghori, rydym yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Trefniadau amrywiol ac anghyson ar draws llysoedd, awdurdodaethau, a mathau o ddirmyg. Er enghraifft, yn y llysoedd troseddol, ceir un weithdrefn ar gyfer dirmyg sy'n ymwneud â rhwystro neu darfu ac un arall ar gyfer dirmyg sy'n ymwneud â thorri gorchymyn. I'r gwrthwyneb, yn y llysoedd sifil a theulu, dim ond un weithdrefn sy'n berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion dirmyg.

- Iaith anghyson ac aneglur mewn achos o ddirmyg. Er enghraifft, cyfeirir at y dirmygwr honedig fel yr "atebydd" yn y llysoedd ynadon, Llys y Goron a'r Llys Apêl (Adran Droseddol), ond fel y "diffynnydd" yn y llys sirol, yr Uchel Lys, y Llys Apêl (Adran Sifil), a'r Llys Gwarchod.
- Diffyg manylder, penodoldeb a chyflawnder yn y rheolau gweithdrefnau a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer achosion dirmyg. Er enghraifft, nid yw'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn dweud sut y dylai'r llysoedd fynd i'r afael â mathau penodol o ddirmyg, megis pan fo'r llys yn wynebu dirmyg drwy dorri embargo ar ddyfarniad drafft.
- Amwyster o ran y cysyniad o weithdrefn grynodol. Nid oes amheuaeth nad oes gan lysoedd bŵer cyfraith gyffredin i ddelio â dirmyg "yn ddiannod". Fodd bynnag, er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml i gyfeirio at ddelio â mater ar unwaith, nid oes datganiad cyfreithiol clir na chyson ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu i ddelio â mater yn ddiannod mewn achos o ddirmyg. Nid yw'r un o'r termau "crynodol" nac "yn ddiannod" nac unrhyw beth tebyg yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r weithdrefn yn unrhyw un o'r rheolau.

Er mwyn goresgyn y materion hyn, mae angen cysoni ac egluro'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn achos o ddirmyg. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael trefn unffurf, gyffredinol mewn achos o ddirmyg ym mhob llys, tribiwnlys a chorff arall (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 65**).

Rydym yn ymwybodol y bydd angen rhywfaint o amrywiad yn y weithdrefn hon mewn rhai amgylchiadau ar sail cyfleusterau ac anghenion llysoedd, tribiwnlysoedd a chyrff eraill penodol. Er enghraifft, gellir cyfiawnhau gweithdrefnau amgen i gadw natur anffurfiol anochel achos mewn tribiwnlysoedd.

Mesurau gwarchod ar gyfer treial teg

Ystyrir dirmyg yn “drosedd” at ddibenion erthygl 6 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob achos o ddirmyg gydymffurfio â holl ofynion yr hawl i dreial teg. Fodd bynnag, mewn sawl ffordd, nid yw’r gweithdrefnau dirmyg presennol yn mynd yn ddigon pell i sicrhau hawliau treial teg diffynnydd.

Mae’r hawliau hyn yn arbennig o agored i risg yn y drefn gychwynnol ar gyfer delio â dirmyg drwy rwystr neu darfu yn y llysoedd troseddol dan reol 48.5 y Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Mae’r drefn hon yn caniatáu i’r llys fynd i’r afael â’r ymddygiad “yn y fan a’r lle”, ac i’r un barnwr sy’n dyst i’r dirmyg i wrando’r achos dirmyg. Mae hyn yn gallu amharu ar hawl yr unigolyn i wrandawriad teg gan dribiwnlys annibynnol a diduedd o dan erthygl 6(1). Y rheswm am hyn yw mai “y llys yw’r dioddefwr; y llys yw’r tyst; yr erlynydd yw’r llys, a’r llys yw’r barnwr.”⁵

Yn y papur ymgynghori, rydym yn ystyried materion amrywiol sy’n ymwneud â chydymffurfio â gweithdrefnau dirmyg gydag erthygl 6, ac yn gwneud cynigion dros dro ar gyfer trefn sy’n cryfhau gwarchodaeth treial teg. Yn ein barn dros dro, mae bron bob amser yn angenrheidiol i’r llys ohirio achos i sicrhau bod hawliau erthygl 6 y diffynnydd yn cael eu cynnal.

Felly, rydym yn cynnig dros dro, pan fydd llys, tribiwnlys neu gorff arall yn cynnal achos dirmyg, y dylid pennu amser a dyddiad ar gyfer y gwrandawriad ym mhob achos sy’n rhoi cyfle rhesymol i’r diffynnydd gael cyngor cyfreithiol a pharatoi eu hamddiffyniad (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 75**).

Byddai hyn yn newid o’r gyfraith bresennol; er y gallai’r llys ar hyn o bryd ddewis rhwng cychwyn achos dirmyg “yn y fan a’r lle” neu ohirio’r ymholiad, o dan ein cynnig dros dro, dylid gohirio’r ymchwiliad bron bob amser. Mae o fewn disgrisiwn y llys i benderfynu beth yw “cyfle rhesymol” i’r diffynnydd gael cyngor cyfreithiol a pharatoi ei amddiffyniad. Er enghraifft, efallai y bydd y llys yn penderfynu clywed y mater yn ddiweddarach yr un diwrnod pan fydd y diffynnydd yn gallu cael gafael ar gyngor cyfreithiol ar unwaith, neu efallai y bydd yn clywed y mater yr wythnos ganlynol os nad yw’n gallu.

Er mwyn osgoi’r risg o fod yn unochrog, rydym yn cynnig dros dro, pan fydd y diffynnydd yn gwrthwynebu’r honiad, na ddylai’r llys, y tribiwnlys na chorff arall sy’n cynnal y gwrandawriad gynnwys yr un aelodau a welodd yr ymddygiad dan sylw. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai’r mater gael ei glywed gan aelod arall o’r llys, y tribiwnlys neu gorff arall yn unol â threfn ragnodedig (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 86**).

⁵ *R v Powell* (1994) 98 Cr App R 224 yn 226.

Cyhoeddi dyfarniadau dirmyg

Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn mynnu, pan fydd dedfryd o garchar (ar unwaith neu wedi'i gohirio) yn cael ei phasio mewn achos o ddirmyg, bod rhaid cyhoeddi'r dyfarniad ar wefan barnwriaeth Cymru a Lloegr. Yn yr un modd, mewn achosion teulu ac achosion yn y Llys Gwarchod, mae rheolau'n mynnu bod rhaid cyhoeddi dyfarniadau dirmyg ar wefan y farnwriaeth, ac nid dim ond lle maent yn arwain at draddodi. Nid oes darpariaeth gyfatebol yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

Mae absenoldeb dyfarniadau dirmyg a gyhoeddwyd gan lysoedd troseddol yn golygu bod diffyg tryloywder. Rydym o'r farn dros dro, pan fydd achos traddodi, bod achos cryf dros gyhoeddi'r dyfarniad, hyd yn oed os yw'r dyfarniad yn fyr (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 87**).



Cynrychiolaeth

Gan fod rhyddid diffynnydd yn y fantol mewn achos o ddirmyg, efallai y bydd hawliau treial teg yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael cymorth cyfreithiol. Yn ogystal â'r materion cymorth cyfreithiol a chostau a drafodir isod, yn y papur ymgynghori rydym hefyd yn ystyried: ceisiadau i ryddhau gorchymyn traddodi fel y gellir rhyddhau diffynnydd o'r carchar; cytundebau ffi amodol; capio costau; ac ymarferoldeb cael gafael ar gyngor a chynrychiolaeth gyda chymorth cyfreithiol.

Prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol

Pan fydd diffynnydd yn cael cymorth cyfreithiol mewn achos dirmyg, mae'n derbyn "cymorth cyfreithiol troseddol" (yn hytrach na "chymorth cyfreithiol sifil"), ni waeth ym mha lys y mae'r achos yn digwydd ac ni waeth a yw'r achos yn ymwneud â dirmyg sifil neu ddirmyg troseddol. Fodd bynnag, mae cymorth cyfreithiol troseddol yn dibynnu ar brawf modd os yw'r achos yn y llysoedd troseddol, ond nid os yw'r achos mewn lleoliad sifil.

Mae hyn yn golygu bod caniatáu cymorth cyfreithiol i ddiffynnydd yn dibynnu ar ei adnoddau ariannol ond, mewn llysoedd sifil, bydd diffynnydd yn derbyn cymorth cyfreithiol ni waeth beth yw ei adnoddau ariannol. Er enghraifft, bydd diffynnydd a allai fod yn agored i niwed ar incwm isel sydd wedi torri ASBI ac sy'n wynebu gorchymyn traddodi yn y llys sirol yn cael cymorth cyfreithiol, a bydd person cyfoethog sy'n dweud celwydd ar ddatganiad tyst fel rhan o hawliad yswiriant, gyda'r yswiriwr yn cychwyn cais dirmyg yn yr Uchel Lys a chostau cyfreithiol sy'n ddegau o filoedd o bunnoedd, hefyd yn derbyn cymorth cyfreithiol.

Mae dadleuon o blaid ac yn erbyn cael prawf modd ym mhob achos o ddirmyg. Ar y naill law, ceir apêl mewn dull nad yw'n dibynnu ar a yw'r lleoliad yn llys troseddol neu sifil, a byddai prawf modd yn lleihau rhoi cymorth cyfreithiol i filiau yn y senario uchod yn yr Uchel Lys. Ar y llaw arall, gall cyflwyno prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol ym mhob achos o ddirmyg arwain at ganlyniadau andwyol i ddiffynnyddion sy'n methu'r prawf modd ond sy'n wynebu cais dirmyg a wneir gan ymgeisydd sydd â digon o adnoddau.

Ein barn dros dro yw y dylai prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol fod yn berthnasol ym mhob achos o ddirmyg, ac rydym yn gofyn am farn ymgylgoreion ynghylch a oes unrhyw gategoriâu o achosion y dylid eu creu fel eithriadau lle na ddylai prawf modd fod yn berthnasol (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 95**).

Costau: perthnasedd modd y diffynnydd

Mae'r llysoedd wedi nodi'n glir nad yw costau mewn achosion dirmyg "mewn rhyw gategori arbennig"⁶ a bod egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Mae hyn yn golygu bod costau yn erbyn diffynnyddion mewn llysoedd troseddol wedi'u cyfyngu i'r swm y mae gan y diffynnydd y "modd a'r gallu i dalu",⁷ ond nid yw'n ofynnol i lysoedd sifil ystyried modd y diffynnydd wrth wneud gorchmynion costau. Gellir ystyried yr anghysondeb hwn yn un annymunol, yn enwedig lle gellir gwneud y gorchmynion am gostau mewn llysoedd sifil yn erbyn diffynnydd anfoesgar am dorri ASBI, neu yn erbyn protestiwr am dorri gwaharddeb tra'n arfer ei hawl i ryddid mynegiant a rhyddid i gysylltu.

Rydym yn gofyn am farn ymgylgoreion ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i lys sifil mewn achos o ddirmyg ystyried adnoddau ariannol y diffynnydd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarniadau costau mewn achosion o ddirmyg (gweler **Cwestiwn Ymgynghori 98**).



⁶ Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth v Cuciurean [2022] EWCA Civ 661, [2022] 1 WLR 3847 yn [68].

⁷ Cyfarwyddyd Ymarfer (Costau mewn Achosion Troseddol) 2015 [2015] Cyfnerthwyd yr EWCA Crim 1568 gyda diwygiad rhif 1 [2016] EWCA Crim 98, para 3.4. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hefyd yn berthnasol i achosi yn yr Uchel Lys am ddirmyg yn wyneb y llys: para 1.1.3 a Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012, adran 14(g).

Apeliadau

Mae'r fframwaith ar gyfer apeliadau o orchymyn neu benderfyniad a wneir mewn achos dirmyg yn gymhleth.

Yn benodol, mae'r llwybrau apêl presennol yn anodd i ddefnyddwyr llys eu deall ac nid ydynt bob amser yn cael eu deall yn dda gan y rheini sy'n eu cynghori (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn gyfreithwyr, fel cynghorwyr o Gyngor ar Bopeth). Y rheswm am hyn yw bod nifer o wahanol lwybrau apelio sy'n amrywio yn dibynnu ar yr union gyd-destun. Er enghraifft, mae cryn amrywiaeth yn y ffyrdd y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau dirmyg llysoedd ynadon. Yn yr uwch lysoedd, bydd apêl o orchymyn neu benderfyniad yr Uchel Lys yn mynd i'r Llys Apêl (Adran Sifil) os gwrandawyd yr achos dirmyg gan un barnwr, ond bydd yn mynd yn syth i'r Goruchaf Lys os yw'r achos dirmyg yn cael ei wrando gan Lys Adrannol.



Ym Mhennod 11 y papur ymgynghori rydym yn ystyried dau opsiwn amgen ar gyfer diwygio'r llwybrau apêl mewn achosion dirmyg, gyda golwg ar wneud y strwythur yn gliriach ac yn fwy cydlynol.

1. Yr opsiwn cyntaf yw strwythur syml, fertigol, gyda phob apêl am ddirmyg yn dilyn yr un llwybr. Yn yr opsiwn hwn:
 - Byddai apeliadau o benderfyniadau dirmyg yn yr achos cyntaf ym mhob llys isradd (gan gynnwys llysoedd ynadon ym mhob sefyllfa), tribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd sy'n llysoedd uwch o gofnod), cyrff eraill a Llys y Goron yn mynd i'r Uchel Lys. Byddai apeliadau o benderfyniadau apêl yr Uchel Lys yn mynd i'r Llys Apêl (Adran Sifil), ac yna i'r Goruchaf Lys.
 - Byddai apeliadau o benderfyniadau'r Uchel Lys am y tro cyntaf (gan gynnwys y Llys Adrannol) yn mynd i'r Llys Apêl (Adran Sifil), ac oddi yno byddai'n mynd i'r Goruchaf Lys.
2. Yr ail ddewis fyddai bod apeliadau dirmyg yn dilyn yr un llwybrau apêl ag sydd fel arfer yn berthnasol mewn llysoedd troseddol a sifil. Er enghraifft, byddai apeliadau o benderfyniadau llysoedd troseddol is yn y lle cyntaf (yn benodol, llysoedd ynadon sy'n ymarfer eu hawdurdodaeth droseddol) yn mynd i Llys y Goron drwy ail-wrandawriad, ac yna i'r Llys Apêl (Adran Droseddol), ac yna i'r Goruchaf Lys.

Rydym yn gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch pa un o'r opsiynau hyn (neu amrywiadau arnynt) sy'n well yn **Cwestiwn Ymgynghori 129**.

Effaith

Mae'n rhaid i'r argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith gael eu llywio gan effeithiau economaidd a chydraddoldeb y byddai'r newidiadau'n mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae'n bwysig ystyried pa gostau trosiannol (sy'n gysylltiedig â symud i gynllun newydd) yn ogystal â'r costau parhaus (sy'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw gynllun newydd pan fydd ar waith) fydd yn cael eu cynnwys. O ran effaith ar gydraddoldeb, rydym yn ystyried sut y gallai ein cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith effeithio ar grwpiau neu unigolion â nodweddion sy'n cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel hil, oed neu anabledd.

Drwy gydol y papur ymgynghori, ac yn benodol ym Mhennod 12, rydym yn ystyried effeithiau ein cynigion dros dro ar yr economi a chydraddoldeb. Yn ogystal â darparu cwestiynau sy'n ymwneud â materion penodol, fel effaith sancsiynau ar y rheini nad oes ganddynt alluedd, neu ar blant a phobl ifanc (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 105, 110 ac 115**), rydym yn gofyn am dystiolaeth ar effaith o ran unrhyw gyfuniad o gynigion, neu effaith gyffredinol ein cynigion (gweler **Cwestiynau Ymgynghori 136 ac 137**).

